

Datblygu ymagwedd at fapio cenedlaethol: Dechrau gwaith ar yr Alban ar raddfa fach


Dr Lukasz Banaszek: Rheolwr Mapio Pell-synhwyro, [Historic Environment Scotland](#)

Mae'r cynnydd mawr mewn data wedi'i bell-synhwyro yn yr Alban yn cynnig cyfleoedd ac yn gosod her. Er bod map orthoffotograffig cyflawn o'r Alban ar gael ers rhai blynyddoedd bellach, mae sganio laser o'r awyr (ALS) yn ddarniog, er bod dyhead i'w helaethu neu ei gwblhau hyd yn oed. Mae hyn yn codi her ynghylch sut y bydd Historic Environment Scotland, fel corff arolygu cenedlaethol yr Alban, yn ymdrin â'r cynnydd cyflym mewn data wedi'i bell-synhwyro wrth ddiffinio ymagwedd at fapio cenedlaethol.

Mae ymagweddau sefydledig at archwilio archaeolegol yn pwysleisio rhagchwilio yn y maes, wedi'i gefnogi gan ddata wedi'i bell-synhwyro, ond gwaith sy'n gofyn am dipyn o adnoddau yw hwn. Trafodir gwaith rhagarweiniol ar Ynys Arran, a elwir ar lafar gwlad yn 'Scotland in Miniature' (yr Alban ar raddfa fach), i ddatblygu mapio graddfa genedlaethol, gan gynnwys cyflwyno darganfyddiadau newydd, agweddau ar ddata aml-raddedig a dyhead i ddatblygu llifoedd gwaith wedi'u symleiddio sy'n rhoi'r pwyslais ar ddata wedi'i bell-synhwyro a chanfod gwrthrychau awtomataidd. Mae hyn yn gofyn am ddatblygu llifoedd gwaith newydd, ond hefyd am ailstyried agweddau ar arfer sefydledig.



Aerial Laser Scanning by Fugro.



Pob lluniau (c) Historic Environment Scotland.